



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Gwneud ein cynllun gwasanaethau iechyd



Hawdd
ei Ddeall



Cyflwyniad	4
------------	---

Delio â phroblemau	6
--------------------	---

Sut rydym am i bethau fod yn y dyfodo	9
---------------------------------------	---


Beth rydym yn credu ynddo	10
---------------------------	----

Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol	12
-----------------------------------	----

Sut y byddwn yn gwneud i'r cynllun weithio'n dda	17
--	----

Beth sy'n digwydd nesaf	20
-------------------------	----

Am ragor o wybodaeth	21
----------------------	----



Yn y ddogfen Hawdd ei Darllen hon, mae geiriau anodd mewn **print trwm**. Rydym yn egluro beth yw ystyr y geiriau hyn yn y frawddeg wedi iddynt gael eu defnyddio.




Mae rhai geiriau yn [las ac wedi eu tanlinellu](#). Mae'r rhain yn ddolenni a fydd yn mynd i wefan arall sydd â mwy o wybodaeth.

Cyflwyniad



Mae'r wybodaeth hon gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae ynghylch gwneud cynllun i'n gwasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru.




Bydd y cynllun yn dweud wrth bobl beth yr ydym eisiau ei wneud a'r canllawiau y byddwn yn eu dilyn.



Mae angen i ni wneud y cynllun hwn i sicrhau y bydd gwasanaeth iechyd yng Ngogledd Cymru yn gweithio'n dda yn y dyfodol.



Rydym eisiau canfod beth yr ydych chi'n ei feddwl am wasanaethau gofal iechyd yng Ngogledd Cymru.



Byddwn yn defnyddio eich syniadau i'n helpu ni i wneud ein cynllun terfynol.

Delio â phroblemau

Y prif broblemau yr ydym yn eu hwynebu.



Mae Gogledd Cymru yn ardal fawr iawn ac yn gymysgedd o drefi a chefn gwlad.



Mae mwy o bobl hŷn yn byw yma a gallan nhw fod â mwy o broblemau iechyd.



Mae gwahaniaethau ym mha mor iach yr ydych yn dibynnu ar ba ran o Ogledd Cymru yr ydych yn byw.



Rydym yn cael trafferth canfod staff i weithio yma ac mae llawer o swyddi heb eu llenwi.



Weithiau allwn ni ddim rhoi gofal cyn gynted ag y byddem yn ei ddymuno ac mae pobl yn dod i'r ysbyty pan nad oes angen iddyn nhw wneud hynny.

Sut y bydd ein cynllun yn helpu gyda'r problemau hyn

Bydd ein cynllun yn helpu yn y ffyrdd yma:



- Bydd iechyd pobl Gogledd Cymru yn gwella



- Bydd pobl yn cael gwell profiad pan fyddant yn defnyddio ein gwasanaethau



- Bydd ein staff yn gallu rhoi gofal rhagorol



- Bydd ein gwasanaethau yn ddiogel ac o safon uchel



- Bydd pobl eisiau:
 - Dechrau gweithio i ni.
 - Parhau i weithio i ni.



- Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill fel cyngorau i gynllunio gwasanaethau gyda'n gilydd.

Sut rydym am i bethau fod yn y dyfodo



Rydym eisiau:

- I bawb fyw bywyd hapus, iach a hir.



- Darparu'r gwasanaethau gorau sy'n addas i bob unigolyn.



- I'n staff barhau i ddysgu, gwella a chefnogi ei gilydd.



- I gydweithio'n well â sefydliadau eraill yng Ngogledd Cymru.

Beth rydym yn credu ynddo



Dyma'r syniadau fydd yn ein helpu ni pan fyddwn yn gwneud ein cynllun:

- Byddwn yn rhoi gwasanaethau sydd orau i bobl er mwyn rhoi'r canlyniad gorau iddyn nhw.



- Rydym eisiau i bobl sy'n defnyddio ac yn gweithio yn ein gwasanaethau fod yn rhan o benderfynu sut olwg sydd ar y gwasanaethau.



- Bydd ein gwasanaethau yn diwallu anghenion y bobl sydd yn byw yma nawr ac yn y dyfodol.



- Rydym eisiau cadw pobl yn iach a gwneud yn siŵr bod pawb yn cael siawns teg i gael y gwasanaethau sydd eu hangen.



- Byddwn yn helpu ein staff i ddeall cynnydd o ran ein gwasanaethau trwy roi'r wybodaeth sydd ei hangen iddyn nhw.



- Gwelwn bod cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwell a helpu gwasanaethau i newid er gwell.



- Rydym eisiau i bobl gael y gofal sydd ei angen yn agos i ble y maen nhw'n byw pan fo'n bosibl.



- Rydym eisiau i'n gwasanaethau fod yn ddiogel ac o ansawdd uchel lle bynnag y maen nhw yng Ngogledd Cymru.



- Byddwn yn edrych am gyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i ddiwallu anghenion gofal iechyd pobl.

Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol



Dyma'r gwahanol wasanaethau gofal iechyd rydym yn mynd i weithio arnynt.

Gwasanaethau yn y gymuned



Rydym yn awyddus i wella gwasanaethau yn y gymuned.

Mae y rhain yn wasanaethau fel:



- Meddygon teulu.



- Deintyddion i edrych ar ôl eich dannedd.



- Fferyllwyr i gael meddyginiaeth.



- Optegwyr i edrych ar ôl eich llygaid.



Ysbytai cymunedol

Mae ein hysbytai cymunedol yn bwysig iawn ac rydym eisiau eu gwneud yn brif ran o'n gwasanaethau.

Gwasanaethau cymunedol

Rydym eisiau gwneud y defnydd gorau o wasanaethau yn y cymunedau.

Bydd hyn yn ein helpu ni i roi gofal i bobl yn agosach at ble maen nhw'n byw.



Prif ysbytai

Bydd tri phrif ysbyty yn dal i roi gofal brys yng Ngogledd Cymru.
Y rhain yw:



- Ysbyty Gwynedd.



- Ysbyty Glan Clwyd.



- Ysbyty Maelor Wrecsam.

Canolfannau Triniaeth Rhanbarthol



Rydym yn mynd i sefydlu canolfannau newydd gyda'r dechnoleg ddiweddaraf.



Byddant yn rhoi llawer o wasanaethau gofal gwahanol megis mân lawdriniaeth.



Byddant yn ein helpu ni i roi gofal i bobl yn gyflymach nag y gallwn ei wneud ar hyn o bryd.

Ffyrdd newydd o roi gwasanaethau




Gallwn weld bod angen i ni roi cynnig ar ffyrdd newydd o roi gwasanaethau i wneud yn siŵr eu bod yn rhagorol.



Er enghraifft, gallwn ddefnyddio technoleg i gael apwyntiadau ar y rhyngwrwyd yn hytrach na rhai wyneb yn wyneb.

Gwasanaethau arbennig



Rhoddir rhai gwasanaethau arbennig y tu allan i ogledd Gymru fel llawdriniaeth yr ymennydd a llawdriniaeth y galon.



Byddwn yn ceisio cynnig rhannau o'r gofal arbennig hwn yng Ngogledd Cymru pan fo modd i ni wneud hynny.

Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd Gogledd Cymru



Rydym yn gobeithio dechrau Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd Gogledd Cymru erbyn 2025.



Rydym yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor a sefydliadau eraill i wneud hyn.



Rydym yn meddwl y bydd hyn yn ein helpu mewn llawer o ffyrdd, fel rhoi mwy o staff i weithio yma i ni a'n helpu ni i weithio mewn ffyrdd newydd.

Sut y byddwn yn gwneud i'r cynllun weithio'n dda

Rydym yn gwybod bod angen i ni ddefnyddio gwahanol bethau i helpu i wneud i'n cynllun weithio'n dda, fel:



- Ein staff.



- Ein hadeiladau.



- Y ffyrdd yr ydym yn rhannu a defnyddio gwybodaeth.

Ein staff



Byddwn yn cefnogi ein staff i weithio mewn ffyrdd gwahanol fel y gallant gyflawni rhagor.



Rydym eisiau i staff gael cefnogaeth a'u helpu nhw i ddeall pa mor bwysig yw ein gwasanaethau.

Ein hadeiladau



Byddwn yn edrych am ffyrdd o ddefnyddio ein hadeiladau i wneud ein gwasanaethau'n well.

Mae hyn yn cynnwys ein cynllun i wella Ysbyty Maelor Wrecsam.



Byddwn yn edrych ar sut yr ydym yn defnyddio ysbytai ac adeiladau eraill i wneud yn siŵr ein bod yn eu defnyddio yn y ffordd orau.

Gwybodaeth



Byddwn yn meddwl am ffordd o wneud ein holl wybodaeth yn **ddigidol** sy'n cynnwys pawb.

Mae **digidol** yn golygu y gall gael ei storio ar gyfrifiadur.



Rydym eisiau gwneud Cofnod Iechyd Claf digidol.



Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod y ffyrdd yr ydym yn defnyddio a rhannu gwybodaeth i'w hymddiried gan staff a chleifion.



Rydym eisiau arwain y ffordd mewn defnyddio technoleg newydd, fel robotiaid yn helpu gyda llawdriniaeth.

Beth sy'n digwydd nesaf



Rydym eisiau parhau i siarad â'n staff a'n cleifion a dyfodol gofal iechyd yng Ngogledd Cymru.



Yn y misoedd nesaf byddwn yn gwrando ar y safbwyntiau a gawn.

Byddwn yn gwrando ar gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw.



Byddwn yn defnyddio eich safbwyntiau i helpu i benderfynu sut y bydd ein gwasanaethau i'r dyfodol yn edrych.



Gobeithiwn y bydd hyn yn rhan o drafodaeth agored am y gwasanaethau iechyd y bydd arnom eu hangen yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth



Gallwch edrych ar ein gwefan yma:

<https://bipbc.gig.cymru>

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni drwy'r:



- Post:
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr
Ysbyty Gwynedd
Penrhosgarnedd
Bangor
Gwynedd
LL57 2PW



- Email:
BCU.Getinvolved@wales.nhs.uk

Cynhyrchwyd y wybodaeth Hawdd ei Darllen yma gan easy-read-online.co.uk